"Cenhedlaeth ddrygionus ac annuwiol sy'n ceisio arwydd."
Mathew 12:39

Dyma esiampl o'r Arglwydd Iesu yn edliw eu diffyg ffydd i rai o'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid sydd wedi dod ato gan ofyn am arwydd ganddo (er mwyn medru credu ynddo).

Y cais

Mae'n amlwg mai agwedd anghrediniol sydd gan yr arweinwyr crefyddol wrth ofyn i Iesu am arwydd. Rŷn ni'n gwybod bod y grŵp yma'n wrthwynebus i'r Arglwydd Iesu ac yn gwrthod credu ynddo. Yma hefyd, diffyg ffydd a diffyg edifeirwch sydd yn eu nodweddu, yn ôl Iesu (41-42).

Arwyddion

Rhaid i ni beidio â meddwl bod Crist yn condemnio pob arwydd a phob cais am arwydd, oherwydd mae'n amlwg yn yr Ysgrythur fod yr Arglwydd yn defnyddio arwyddion i gynorthwyo ffydd ei bobl.

Pan alwyd Gideon ofnus i arwain ei bobl yn erbyn y Midianiaid, gofynnodd am arwydd fod Duw gydag ef, a'i fod yn mynd i waredu Israel drwyddo. Yn fwy na hynny, mae'n gofyn am arwydd ddwywaith. Y noson gyntaf, mae'n gofyn y bydd y gwlân ar y llawr dyrnu yn wlyb, tra bod y llawr yn sych. Yr ail noson, mae'n gofyn am arwydd i'r gwrthwyneb. Caniataodd Duw y ddau gais.

Yna pan oedd Iesu'n iacháu pobl fe ddefnyddiodd arwyddion yn aml iawn. Rhoddodd glai ar lygad y dall, rhoes ei fys yng nghlust y byddar. Roedd yn barod i helpu'r tad a waeddodd arno:**"Yr wyf yn credu; helpa fi yn fy niffyg ffydd"** (Marc 9:24).

Cymhellion

Ni allwn ddweud, felly, fod Duw yn dirmygu arwyddion. Yn ei drugaredd mae wedi rhoi arwyddion i'w bobl droeon. Mae wedi rhoi arwydd y dŵr i ni gyda bedydd, a'r bara a'r gwin gyda'r cymun. Mae'r Arglwydd yn amyneddgar iawn gyda phobl sydd yn cyffesu gwendid ffydd a'r angen am gymorth.

Hefyd, mae'r Arglwydd yn edrych ar y galon. Mae'n gwybod pryd mae rhywun yn teimlo'n wan ac yn dymuno nerth, ac mae'n gwybod pryd mae person yn galongaled ac yn rhoi Duw ar brawf. Mae Iesu wedi cyflawni nifer o arwyddion gerbron y bobl yma eisoes, ac felly, mae'n gwrthod eu cais anghrediniol.

Arwydd Jona

Mae'n enwi Jona a phobl Ninefe. Dywed Iesu y byddai'r genhedlaeth honno'n cael arwydd tebyg i arwydd Jona. Roedd un arwydd mawr i ddod eto, sef marwolaeth ac atgyfodiad Crist. Pe byddai pobl yn gwrthod hwnnw byddent yn siŵr o wynebu barn Duw ar eu hanghrediniaeth.

Mae llawer o Gristnogion honedig yn cael trafferth credu yn hanes Jona. Os ydym yn credu yn yr atgyfodiad o feirw, dydy credu bod dyn wedi byw ym mol pysgodyn anferth ddim yn broblem.

Byddai gwyrth yr atgyfodiad yn fwy, ac roedd cenhedlaeth Iesu wedi gweld nifer mwy o arwyddion na chenhedlaeth Jona. Eto i gyd, troes pobl Ninefe at Dduw mewn edifeirwch.

Esiampl brenhines Sheba

Yna mae Iesu'n cyfeirio at ymdrech y frenhines a ddaeth i weld gogoniant Solomon. Gwnaeth ymdrech i deithio cryn bellter i weld os oedd yr hyn a glywsai'n wir. Ni chafodd ei siomi, yn hytrach cafodd ei gwobrwyo am gadw meddwl agored: **"Eto nid oeddwn yn credu'r hanes nes imi ddod a gweld â'm llygaid fy hun – ac wele, ni ddywedwyd mo'r hanner wrthyf! Y mae dy ddoethineb a'th gyfoeth yn rhagori ar yr hyn a glywais"** (1 Bren.10:7).

Dyma eglurhad da o ffydd a'i gwobr fawr. Mae llawer o bobl wedi clywed am Grist ac wedi darllen amdano heb wneud taith ffydd i'w geisio drostynt eu hunain. Pwy bynnag sy'n mentro at Grist mewn ffydd, ni chaiff ei siomi ond ei ryfeddu. Pwy all ddisgrifio'n iawn beth yw cyfoeth ei drugaredd, ei gariad a'i ras? Rhaid ei brofi drosom ein hunain.

Ninnau?

Roedd Iesu'n edliw i'w genhedlaeth ef ei hanghrediniaeth. Roedden nhw wedi gweld mwy o arwyddion na phobl Ninefe, wedi cael mwy o gefndir crefyddol ac wedi derbyn neges gan un llawer mwy na Jona. Roedd Iesu'n ddibechod ac yn cyhoeddi maddeuant llawn (nid fel Jona). Gwelsent un mwy ei ddoethineb a'i deyrnas na Solomon yn agos atynt. Roeddent wedi cael anogaethau ganddo a gwahoddiadau i gredu ynddo, ond does dim sôn bod brenhines Sheba wedi derbyn gwahoddiad.

Beth fyddai'n dweud wrthym ni, felly? Mae'r Beibl cyfan gyda ni yn ein hiaith ein hunain. Rŷn ni'n gwybod am yr atgyfodiad ac am ddatblygiad Cristnogaeth yn ôl geiriau Crist. Rŷn ni'n gwybod rywfaint o hanes yr Eglwys trwy'r canrifoedd. Mae unrhyw un sy'n gwybod cymaint am Grist yn ddiesgus. Wyt ti, ddarllenydd annwyl, wedi edifarhau am dy bechod ac wedi estyn mewn ffydd at Grist eto? Paid ag oedi rhagor!